**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf.: / Our ref.: MD/03273/15

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Llefarwyr y Pleidiau

17 Tachwedd 2015

Annwyl Aelod,

**Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) – Gofal Ychwanegol**

Yn ystod craffu Cam 2 y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y gwelliannau i'r Bil ddydd Mawrth 7 Hydref, cynigiais rannu ag Aelodau'r Pwyllgor y cyngor sy'n cael ei baratoi gan Brif Arolygydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ynghylch rheoleiddio Gofal Ychwanegol.

Mae'r gwaith hwnnw wedi'i gwblhau erbyn hyn ac mae copi ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Mae cyngor y Prif Arolygydd yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd fod angen mwy o ddiogelu ar bobl sy'n derbyn Gofal Ychwanegol. Yn sgil y cyngor hwn, rwyf wedi penderfynu peidio â rheoleiddio Gofal Ychwanegol fel gwasanaeth ar wahân o dan y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). Fel yr ydych yn ymwybodol, byddwn yn parhau i reoleiddio unrhyw ofal personol a ddarperir fel rhan o Ofal Ychwanegol drwy ddiffiniadau gwasanaeth eraill sydd yn y Bil.

Gan fod hwn yn faes sydd wedi bod yn datblygu'n gyflym, byddaf yn gofyn i'r Arolygiaeth barhau i adolygu'r mater hwn yn rheolaidd ac i gynghori os bydd y sefyllfa'n newid. Bydd modd ystyried y cyngor hwnnw wedyn wrth wneud unrhyw benderfyniad Gweinidogol i ddefnyddio'r pwerau a sefydlwyd o dan y Bil hwn i gynnwys gwasanaethau eraill o dan y drefn rheoleiddio ac arolygu.

Yn gywir,

Mark Drakeford

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Mark.Drakeford@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*